

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4170>

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf
2017

Amser: 09.21 – 11.27

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AC (Cadeirydd) Michelle Brown AC Hefin David AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC Mark Reckless AC
Tystion:	Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon Karen Jewell, Llywodraeth Cymru Joanna Jordan, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Clerc) Rebekah James (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#) (PDF 546KB) [Gweld fel HTML](#) (240KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol – sesiwn dystiolaeth 11

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Amserlenni ynghylch pryd y bydd darlun data llawn y Bwrdd Iechyd ar gael, sy'n cynnwys nifer y menywod sydd wedi cael eu cyfeirio a'u gweld gan seicolegwyr a'r rhai a atgyfeiriwyd ond nad ydynt yn gallu cael mynediad at seicolegydd.
- Y diweddaraf am argaeledd mynediad i driniaeth siarad wyneb yn wyneb.
- Nodyn ar y dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas Seicolegol Prydain bod y rhai sy'n cyflwyno gwasanaethau seicoleg amenedigol yng Nghymru yn gorfod ceisio goruchwyliaeth y tu allan i Gymru, o ganlyniad i ddiffyg seicolegydd amenedigol ymgynghorol yng Nghymru.
- Diweddariad yn dilyn cyfarfod y cyd Bwyllgor ar 25 Gorffennaf i drafod yr adolygiad o'r galw am wasanaethau haen 4.
- Nodyn ar unrhyw ymchwil sydd ar gael ar effaith methu bwydo ar y fron, ac a yw hyn yn sbardun i iselder ôl-enedigol a pha gamau sy'n cael eu cymryd gan staff rheng flaen i gefnogi mamau sy'n bwydo ar y fron.

3 i'w nodi

Nodwyd y papurau.

3.1 Nodyn ar Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan

3.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith – Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

5 Ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol – Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad. Caiff adroddiad drafft ei drafod ar ddechrau tymor yr hydref.